

# CYNGOR SIR ARBENNIG YNYS MÔN

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Dydd Llun, 27 Ionawr 2014**

**YN BRESENNOL:**

Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)  
Cynghorydd Raymond Jones (Is-Gadeirydd)

Y Cynghorwyr R Dew, Jeffrey M Evans, Jim Evans, Ann Griffith, John Griffith, D R Hughes, K P Hughes, Vaughan Hughes, Victor Hughes, W T Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, H E Jones, R Ll Jones, Richard Owain Jones, Alun W Mummery, R G Parry OBE, Dylan Rees, J A Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers ac Ieuan Williams

**WRTH LAW:**

Prif Weithredwr  
Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes  
Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)  
Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adain 151  
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro  
Rheolwr Refeniw a Budd-daliadau (GJ)  
Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor (JG)

**YMDDIHEURIADAU:**

Y Cynghorwyr Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alwyn Rowlands ac Dafydd Rhys Thomas  
Dirprwy Brif Weithredwr

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Dim i'w ddatgan.

**2 DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR, Y PWYLLGOR GWAITH NEU'R PRIF WEITHREDWR**

Estynnodd y Cadeirydd, ar ran yr Aelodau a'r Swyddogion, ei ddymuniadau gorau i'r Cynghorwyr R Meirion Jones a Dafydd Rhys Thomas am adferiad llawn yn dilyn salwch.

**3 CYNLLUN GOSTWNG TRETH GYNGOR LEOL 2014-15**

Adroddwyd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) – Ar 27 Tachwedd 2013 cymeradwyodd Cynulliad Cymru ddau set newydd o reoliadau: Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013 a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013. Mae'r Rheoliadau 2013 hyn yn pennu prif nodweddion y Cynllun i'w mabwysiadu gan yr holl Gynghorau yng Nghymru o 2014-2015 ymlaen.

Bu'n ofynnol i'r Cyngor wneud cynllun ar gyfer 2014/2015 o dan ofynion y rheoliadau er y ffaith y byddai cynllun diofyn yn dod i rym hyd yn oed pe bai'r

Cyngor yn methu â gwneud cynllun. Roedd yr ymrwymiad yn ddyletswydd statudol ac yn berthnasol hyd yn oed pe bai'r Cyngor yn dewis peidio â gosod unrhyw un o'r digresiynau oedd ar gael iddo.

Yn 2013/2014, nid oedd unrhyw arian ychwanegol ar gael gan Lywodraeth Cymru i gyllido'r elfennau disgresiynol.

Roedd Rheoliadau 2013 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i ystyried ar gyfer pob blwyddyn ariannol a fyddai'n adolygu ei gynllun neu yn dod â chynllun arall yn ei le. Rhaid i'r Awdurdod wneud unrhyw newidiadau neu newid cynllun heb fod yn hwyrach na 31 Ionawr yn y flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn y dânt i rym.

Roedd y goblygiadau ariannol wedi eu hamlinellu yn yr adroddiadau cyllidebol i'r Pwyllgor Gwaith. Cost ragnodedig y cynllun arfaethedig yn 2014/15 oedd rhwng £5.51m a £5.61m, oedd yn £350k – £460k yn fwy na'r grant o £5.15m.

Roedd darpariaeth gyllidebol o £400k yn cael ei gynnig i gyfarfod â'r diffyg hwn fyddai'n cael ei fonitro mewn adroddiadau monitro'r gyllideb i'r Pwyllgor Gwaith. Nid oedd yn ystyried bod y diffyg yn dderbyniol nac yn gynladwy ac roedd yn gobeithio y byddai'r neges hwn yn cael ei gyfleu i'r Cynulliad.

## **PENDERFYNWYD**

- **Nodi gwneud Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 ("y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig") gan Lywodraeth Cymru ar 27 Tachwedd, 2013 a'r Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Treth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynlluniau Diofyn) (Cymru) Diwygiad 2014 ("y Rheoliad Diwygio") gan Gynulliad Cymru ar 14 Ionawr, 2014).**
- **Nodi canlyniad yr ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd gan y Cyngor ar gyflwyno'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor oedd wedi ei amlinellu yn Atodiad B.**
- **Mabwysiadu'r Cynllun fel oedd i'w weld yn Atodiad A.**
- **Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) i ddiwygio'r Cynllun Cefnogaeth Treth Gyngor Leol 2014/2015 pe bai angen hynny i gymryd i ystyriaeth unrhyw reoliadau a gaiff eu pasio wedi hynny gan Lywodraeth Cymru yn diwygio'r Cynllun.**

## **4 AMSER CYFARFODYDD**

Adroddwyd gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd – Bod adroddiad ar amser cyfarfodydd y Cyngor wedi ei gyflwyno i'r Cyngor ar 5 Rhagfyr, 2013.

Roedd yr ymarferoldeb o alw rhai cyfarfodydd naill ai am 4:00pm neu 4:30pm wedi ei ystyried gan Arweinyddion Grwpiau a'r UDA ac roedd yn cael ei gefnogi. Roedd

Arweinyddion y Grwpiau yn argymhell y dylid treialu trefniadau gyda'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini.

Gwnaed Asesiad Effaith Cydraddoldeb Cychwynnol hefyd ar yr effaith debygol o ddechrau cyfarfodydd am 4:00pm a 4:30pm, gyda manylion am hynny i'w gweld yn Para 3.1 yr adroddiad.

## **PENDERFYNWYD**

- **Cefnogi'r bwriad o alw rhai cyfarfodydd am 4:00pm a 4:30pm a bod trefniadau'n cael eu trafod gyda'r Cadeiryddion ac Aelodau'r Pwyllgorau perthnasol a bod adroddiad diweddarau'n cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf a drefnwyd o'r Cyngor ar 27 Chwefror, 2014.**
- **Nodi canfyddiadau'r asesiad effaith cydraddoldeb cychwynnol;**
- **Bod trefniadau'n cael eu treialu am gyfnod o 12 mis gan ddechrau yn Ebrill, 2014.**

Daeth y cyfarfod i ben am 2.20 pm

**Y CYNGHORYDD G O JONES  
CADEIRYDD**